# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**11.00 y.b., DYDD LLUN, 23AIN IONAWR, 2017**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 13/01/17)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Lesley Day
Eryl Jones-Williams
Michael Sol Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Margaret E.Jones
Jacqueline Hughes
David Wareing
Einir Young
Aled Jones

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

David Clay

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Hydref, 2016, fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. CEISIADAU AM ODDEFEB** 6 - 10

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**6. AELODAETH Y PWYLLGOR SAFONAU YN DILYN ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017** 11 - 12

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**7. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU** 13 - 14

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**8. COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU** 15

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 16 - 17

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 3 HYDREF 2016

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Lesley Day ac Eryl Jones-Williams.

**Aelodau Annibynnol:-** Ms Jacqueline Hughes, Mr Aled Jones, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Michael Sol Owen a Mr David Clay.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2016 fel rhai cywir.

**3. PARATOI AR GYFER ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn atodi adroddiad fu gerbron Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor ar yr 20fed o Fedi ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i baratoi ar gyfer anwytho aelodau newydd i'r awdurdod yn sgil etholiadau Mai 2017.

Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried yr adroddiad a chynnig arweiniad ar gyfleoedd hyfforddiant pellach posib' ar y Cod Ymddygiad.

Nododd y Cadeirydd ei bod yn croesawu'r ffaith bod cynlluniau ar y gweill i baratoi ar gyfer yr etholiadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

- Ei bod yn hanfodol bwysig bod yr aelodau newydd yn derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- Bod angen meddwl am fformat sy'n cyflwyno prif bwyntiau'r Cod Ymddygiad i aelodau newydd mewn ffordd hwylus a gafaelgar gan hefyd barchu difrifoldeb y testun.
- Bod angen i'r aelodau newydd gael cyfarwyddyd ar y cychwyn ynglŷn â sut i weithredu dros yr wythnosau cyntaf fel cynghorydd heb dramgwyddo'r Cod Ymddygiad.
- Na chredir bod galw heibio stondin yn y Ffair Wybodaeth ar y dyddiau anwytho yn ffordd ddigonol yn ei hun o gyflwyno'r Cod Ymddygiad i aelodau newydd ac y bydd angen cyflwyniad mwy manwl gan y Swyddog Monitro i ddilyn yn fuan wedyn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**4. TREFN DATRYS LLEOL MODEL CYNGHORAU CYMUNED**

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro yn nodi:-

- Bod y mater hwn wedi'i gynnwys ar raglen waith y Pwyllgor Safonau, ond bellach bod Unllais Cymru wedi cychwyn ar y gwaith o lunio trefn genedlaethol i gynghorau cymuned gyda'r Ombwdsmon, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a swyddogion monitro yn rhan o'r broses hefyd.
- Bod y newyddion hwn i'w groesawu a gobeithid y byddai'r drefn newydd yn creu mecanwaith ymarferol a mwy grymus fydd yn galluogi i gynghorau cymuned ddatrys problemau yn haws.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y dylid cysylltu ag Unllais Cymru maes o law i awgrymu bod unrhyw hyfforddiant ar y drefn newydd yn cael ei gynnal yn lleol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2015/16**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu'r rhannau hynny o adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon am y flwyddyn 2015/16 sy'n berthnasol i gwynion cod ymddygiad ac yn nodi'r hyn sydd gan yr Ombwdsmon i'w ddweud yn ei lythyr blynyddol ynglŷn â chwynion cod ymddygiad.

Nododd y Cadeirydd mai canran fechan o'r cwynion sy'n mynd ymhellach a'i bod yn ymddangos mai parch ac uniondeb yw'r materion sy'n codi fwyaf.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Nododd yr Uwch Gyfreithiwr fod dwy gŵyn arall i law ers paratoi'r adroddiad ac y byddai'n adrodd arnynt i'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 11.30 y.b.

____________________________

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **23 Ionawr 2017** |
| **TEITL :** | **Ceisiadau am oddefeb** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Penderfynu ar y ceisiadau** |

**Cefndir**

1 Atodaf gopi o ffurflen gais y Cyng. Dilwyn Morgan, Aelod Y Bala, Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad ag ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Ysgol y Berwyn, Y Bala. Mae'r aelod wedi nodi dau fuddiant ar ei ffurflen.

2. Ni fyddai'r ffaith ei fod yn llywodraethwr un o'r ysgolion yn ei rwystro rhag cymryd rhan mewn trafodaethau. Mae'r Cod Ymddygiad yn rhoi caniatâd penodol i lywodraethwyr a benodwyd gan y Cyngor i gymryd rhan, heblaw lle bydd ceisiadau am ganiatâd (e.e. cynllunio) yn cael eu trafod. Serch hynny mae'r ffaith fod ganddo ŵyr yn un o'r ysgolion yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ac felly fel canlyniad ni all gymryd rhan.

3. Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu goddefeb os yw'r sefyllfa yn dod o fewn un (neu fwy) o'r sefyllfaoedd a restrir yn y rheoliadau perthnasol (gweler nodiadau ar gefn y ffurflen).

**Penderfyniadau Blaenorol y Pwyllgor**

4. Mae'r Pwyllgor yn y gorffennol wedi gosod canllawiau i'w hystyried wrth benderfynu ar geisiadau yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion, sef:

*"Y byddai 'tad/mam, taid/nain, ŵyr/wyres, gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiad rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau"*

4. Mae'r Pwyllgor serch hynny wedi caniatáu goddefebau mewn sefyllfaoedd o'r fath i alluogi aelodau i gymryd rhan mewn trafodaethau lleol. Yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2015 caniatawyd goddefeb i aelod oedd a buddiant tebyg ar y telerau canlynol:

*"PENDERFYNWYD caniatáu'r cais am oddefeb i'r Cynghorydd siarad, ond nid i bleidleisio, mewn cyfarfodydd dan nawdd y Cyngor ...... sy'n cael eu cynnal yn yr ardal, ond na chaiff siarad, na bod yn bresennol na phleidleisio mewn cyfarfod o'r Cyngor, Cabinet nac unrhyw un o'i bwyllgorau a'i bod yn ofynnol iddo ddatgan yn glir ymhob cyfarfod y mae'n cymryd rhan ynddo ei fod wedi cael goddefeb, gan egluro union natur y cyfyngiadau arno, a bod hynny'n cael ei nodi yng nghofnodion y cyfryw gyfarfodydd"*

**Canllawiau'r Ombwdsmon**

5. Mae canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi'r canlynol mewn cysylltiad â goddefebau yn gyffredinol:

*"Bydd angen i'r pwyllgor safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiant sy'n rhagfarnu rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychioladol."*

6. Cyflwynir unrhyw wybodaeth bellach fydd wedi ei dderbyn ynglŷn â'r ceisiadau yn y cyfarfod.

**Argymhelliad**

7. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a phenderfynu ar y ceisiadau.

# Cais i'r Pwyllgor Safonau am Oddefeb

**NI YSTYRIR EICH CAIS OS NA GWBLHEIR POB RHAN O'R Y FFURFLEN HON**

## 1. MANYLION PERSONOL

1.1 Eich enw. DILWYN MORGAN

1.2 Enw eich Cyngor GWYNEDD

1.3 Eich cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt Geryllyn, Heol Tegid, Y Bala Gwynedd, Ll23 7EH
01678520685

## 2. MANYLION EICH BUDDIANT

2.1 Beth yw'r eitem dan sylwad
Ad drefnu Addysg Dalgylch Y Berwyn, Y Bala

2.1 Sut mae eich buddiant yn yr eitem yn codi?

Wyr 5 oed yn ysgol Bro Tegid, Llywodraethwr Ysgol y Berwyn

## 3. MANYLION EICH CAIS

3.1 Ydych chi'n gofyn am oddefeb i siarad a phleidleisio neu i siarad yn unig?
Siarad yn unig a chefnogi safbwynt fy etholwyr yn lleol

3.2 Ydych chi'n:

(a) gofyn am oddefeb ar gyfer cyfarfod penodol? Os felly nodwch pa un:

neu,

(b) gofyn am oddefeb cyffredinol i gymryd rhan pryd bynnag fydd y mater yn codi?

Mewn unrhyw gyfarfod lle bydd gwahoddiad imi roi sylwadau a mynegu barn fy etholwyr

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol): ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

| **4. Mae'r Rheoliadau perthnasol yn gosod yr amgylchiadau lle y gall y Pwyllgor Safonau roi goddefeb a cheir crynodeb ohonynt isod (mae'r manylion llawn i'w gweld yn y nodiadau i'r ffurflen hon). Nodwch pa un o'r amgylchiad(au) hynny sy'n berthnasol i'ch cais drwy dicio'r blwch/blychau perthnasol:** | |
|---|---|
| • mae buddiant gan o leiaf hanner yr aelodau sy'n ystyried y mater | ☐ |
| • byddai'r ffaith nad wyf yn medru cymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol y cyfarfod i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio | ☐ |
| • ni fyddai fy nghyfranogiad yn niweidio hyder y cyhoedd | *☐ |
| • mae'r buddiant yn gyffredin i mi ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd | *☐ |
| • mae yna gyfiawnhad i mi gymryd rhan oherwydd fy rôl neu fy arbenigedd penodol | ☐ |
| • mae'r busnes i'w ystyried gan bwyllgor craffu ac nid oes gennyf fuddiant ariannol | ☐ |
| • mae'r busnes yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol yr wyf yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli ac nid oes gennyf unrhyw fuddiant arall | ☐ |

**5. Nodwch isod pam y credwch y dylai'r Pwyllgor Safonau ganiatáu eich cais** ***(h.y. pam yr ydych yn credu y dylech gael caniatâd i fod yn bresennol yn y cyfarfod fel aelod, er bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu***

**Y mae pryder cynyddol yn fy etholaeth am statws arfaethedig y campws newydd fel un Eglwysig. Yr wyf yn awyddus iawn I gymeryd rhan mewn gwahanol ymgyrchoedd I wir fesur y pryder yma. E.e deisebu, llythyru ayb.**
**Y mae dyhead cryf yn amlwg yn yr ardal am gael ail edrych ar y sefyllfa ac ymgynghori ar statws yr ysgol newydd. Y mae gennyf farn bendant am beth fyddai orau ir ardal a hoffwn gymeryd rhan mewn ymgyrch yn ol dymuniad fy etholwyr**

***(gallwch barhau ar dudalen ar wahân os oes angen)***

**Arwyddwyd. Dilwyn Morgan. 3/1/17**

*I'w dychwelyd i'r Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, LL55 1SH.*

*Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ffurflen hon, cysylltwch â'r Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol): ffôn - 01286 679168 e-bost - sionH@gwynedd.gov.uk*

## Nodiadau ar gwblhau'r ffurflen

**1.** Hon yw'r ffurflen ar gyfer cyflwyno cais am oddefeb, sef caniatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth er bod gennych *'fuddiant sy'n rhagfarnu'* o dan y Cod Ymddygiad. Gellir cael gwybodaeth bellach am fuddiannau yn y Cod Ymddygiad ei hun, Canllawiau'r Ombwdsmon ac yn llyfryn 'Buddiannau' Cyngor Gwynedd.

**2. Yr amgylchiadau lle gellir caniatáu gollyngiadau**
Mae gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i ganiatáu cais os yw'n dod o fewn un o'r amgylchiadau a restrir yn *Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001*, sef:

" (a) os oes gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol neu hanner aelodau un o bwyllgorau'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw;

(b) os oes gan ddim llai na hanner aelodau gweithrediaeth arweinydd a chabinet y mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw a bod naill ai paragraff (ch) neu baragraff (d) hefyd yn gymwys;

(c) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os byddai anallu aelod i gymryd rhan yn tarfu ar gydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod perthnasol neu'r pwyllgor o'r awdurdod y mae'r busnes i'w ystyried ganddo i'r fath raddau nes y byddai'r canlyniad yn debygol o gael ei effeithio;

(ch) os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal;

(d) os yw'r buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd;

(dd) os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod;

(e) os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol;

(f) os yw'r busnes sydd i'w ystyried yn berthnasol i arian neu eiddo corff gwirfoddol y mae'r aelod yn aelod o'i bwyllgor neu ei fwrdd rheoli heblaw fel cynrychiolydd yr awdurdod perthnasol ac nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall yn y busnes hwnnw ar yr amod na fydd unrhyw ollyngiad yn ymestyn i gymryd rhan mewn unrhyw bleidlais mewn perthynas â'r busnes hwnnw; neu

(ff) os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei bod o les i drigolion ardal yr awdurdod perthnasol i'r anallu gael ei godi, ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig bod y gollyngiad yn cael ei ganiatáu yn cael ei roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn saith diwrnod a hynny mewn unrhyw fodd y gall ei bennu."

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **23 Ionawr 2017** |
| **Teitl :** | **Aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2017** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Ystyried y camau arfaethedig i benodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau** |

**Cefndir**

1. Cynhelir Etholiadau Llywodraeth Leol ar 4 Mai 2017, i ethol aelodau i Gyngor Gwynedd a holl gynghorau cymuned a thref y sir. Tra na fydd hyn yn effeithio ar Aelodau Annibynnol y Pwyllgor, bydd cyfnodau swyddi'r **Aelodau Etholedig** a'r **Aelod Pwyllgor Cymunedol** yn dod i ben. Rydym yn awyddus i fod mewn sefyllfa i benodi aelodau newydd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar ddiwedd mis Mehefin 2017.

**Aelodau Etholedig**

2. Bydd angen penodi tri aelod o Gyngor Gwynedd, gyda phob aelod, heblaw'r Arweinydd ac aelodau'r Cabinet yn gymwys. Ni chaiff aelod etholedig wasanaethu am fwy na dau gyfnod yn olynol. O'r tri aelod presennol mae'r Cynghorwyr Michael Sol Owen a Lesley Day wedi gwasanaethu am un tymor, tra bod y Cyng. Eryl Jones-Williams wedi gwasanaethu am ddau.

3. Mae'r Cyngor Llawn wedi dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at holl aelodau cymwys y Cyngor pryd bynnag bydd lle gwag yn codi ar y Pwyllgor Safonau, ac i gyflwyno'r ceisiadau i'r Grŵp Busnes. Bydd y Grŵp Busnes yn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn a fydd yn gwneud y penodiad.

4. Bwriedir felly dilyn y drefn a ddilynwyd yn y gorffennol, sef ysgrifennu at holl aelodau cymwys Cyngor Gwynedd ar ôl yr etholiad, cyflwyno'r ceisiadau i'r Grŵp Busnes er mwyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn ar ddiwedd mis Mehefin.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol**

5. Bydd angen penodi un aelod sy'n aelod o gyngor cymuned o fewn Gwynedd ond heb fod yn aelod o Gyngor Gwynedd. Ni chaiff aelod wasanaethu am fwy na dau gyfnod yn olynol. Mae'r aelod presennol, y Cyng. David Clay, wedi gwasanaethu ar y Pwyllgor am ddau dymor.

6. Tra gwneir y penodiad gan y Cyngor, mae'n rhaid ymgynghori gyda'r cynghorau cymuned ac unrhyw gymdeithasau cynghorau cymuned sy'n gweithredu o fewn yr ardal.

7. Yn unol â phenderfyniad gan y Cyngor Llawn mae'r hawl wedi ei ddirprwyo'r i'r Swyddog Monitro sefydlu panel o blith aelodau'r Pwyllgor Safonau ystyried ceisiadau

i fod yn Aelod Pwyllgor Cymunedol pryd bynnag y bydd angen penodi aelod newydd o’r fath.

8. Bwriedir dilyn y drefn a ddilynwyd yn y gorffennol, sef ysgrifennu yn unigol at bob cyngor cymuned i roi’r cyfle iddynt enwebu un o’i haelodau ar gyfer y swydd. Er na fydd posib enwebu aelodau tan ar ôl yr etholiad rydym yn bwriadu ysgrifennu at y clercod cyn yr etholiad fel y gallant sicrhau bod y mater yn cael ystyriaeth yng nghyfarfod cyntaf eu cynghorau. Byddwn hefyd yn cysylltu gydag Un Llais Cymru fel rhan o’r broses.

9. Bwriedir ffurfio panel o blith aelodau presennol y Pwyllgor i ystyried y ceisiadau, fel y gellir cyflwyno argymhelliad i’r Cyngor Llawn ar ddiwedd mis Mehefin.

**Argymhellion**

10. Gofynnir am sylwadau’r Pwyllgor ar y drefn arfaethedig.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **23ain IONAWR 2017** |
| **PENNAWD** | **FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU** |
| **AWDUR** | **IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO** |

**Cefndir**

1. Sefydlwyd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn 2011. Amcan y Fforwm oedd ceisio sicrhau cysondeb rhwng y 6 Awdurdod Lleol mewn cysylltiad â gwaith Pwyllgorau Safonau. Roedd hefyd ar gyfer rhannu ymarfer da a datrysiadau i broblemau. Gallai fod yn gyfrwng hefyd I gyfleu barn ar y cyd e.e. i'r Ombwdsmon.

2. Cytunwyd y cylch gorchwyl canlynol:

    - Aelodaeth - Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Swyddog Monitro, a'r Dirprwy Swyddog Monitro neu Aelodau Annibynnol eraill o Bwyllgorau Safonau'n bresennol fel dirprwyon pleidleisio - un bleidlais i bob Awdurdod Lleol a'r bleidlais fwrw gan Gadeirydd y Fforwm
    - Ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd – bob dwy flynedd er mwyn cael cysondeb
    - Gweinyddiaeth – gallai symud gyda'r Cadeirydd, ond byddai angen cynllunio ar gyfer olyniaeth.
    - Amlder Cyfarfodydd – cyfarfodydd chwarterol gan drefnu cyfarfodydd pellach yn ôl yr angen

3. Mae'r Fforwm bellach yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn ac mae'r rhaglen ddiweddar wedi cynnwys materion megis:

    - Ymgynghoriad ar Fil Ombudsmon
    - Canllawiau Diwygiedig ar y Cod Ymddygiad
    - Cofrestru buddiannau a rhoddion lletygarwch
    - Ymgynghoriadau ar ddiwigo Llywodraeth Lleol

Yn ychwanegol mae'r Ombwdsmon wedi mynychu cyfarfodydd ar gyfer cyflwyno ond hefyd cael ei holi gan y Fforwm. Mae'r Fforwm yn unigryw yng Nghymru.

4. Yn ddiweddar hefyd cafwyd cais ar ran Pwyllgorau Safonau Cyngorhau Powys a Cheredigion i ymuno a’r Fforwm. Yn gyffredinol mae hyn wedi cael ei weld fel cam positif ymlaen. Byddai yn gyfrwng i ychwanegu at statws y Fforwm fel corff ymgynghorol a datblygol. Yn amlwg mae oblygiadau daearyddol yn golygu y byddai'r ardal ar gyfer cyfarfodydd yn ehangach. Ar y llaw arall gyda chyfarfodydd yn teithio o awdurdod i awdurdod mae’n debyg y byddai'r ardrawiad yma yn gymharol isel.

   **Argymhelliad**
   Fod y Pwyllgor yn derbyn y wybodaeth ac yn datgan eu barn ar ddatblygu;r Fforwm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **23 Ionawr 2017** |
| **TEITL :** | **Cofrestr Buddiannau Aelodau** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae'r Gofrestr Buddiannau Aelodau yn cynnwys y ffurflenni datgan buddiant a gwblheir gan aelodau pan fyddant yn dechrau eu swyddi (ac y byddant yn eu diweddaru fel bo'r angen), ynghyd â'r ffurflenni a lenwir ganddynt wrth ddatgan buddiant mewn cyfarfodydd.

2. Hyd yma mae'r gofrestr wedi ei chadw ar ffurf bapur ac wedi bod ar gael i unrhyw un sy'n dymuno dod i mewn i'w gweld. Bellach, fel y gŵyr aelodau, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi'r Gofrestr Buddiannau Aelodau yn electroneg, fel y bydd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r system 'Modern Gov' a ddefnyddir gan y Cyngor. Golyga hyn y gellir gweld datganiadau pob aelod drwy eu tudalennau personol ar y wefan.

3. I baratoi ar gyfer hyn gofynnwyd i aelodau sicrhau bod eu manylion yn gyfredol. Mae'r wybodaeth yma nawr wedi ei gasglu, a'r wybodaeth wedi ei osod ar y system. Heblaw am ychydig o waith gwirio a chysoni mae'r broses wedi ei chwblhau a bydd y gofrestr yn mynd ar wefan y Cyngor yn fuan iawn.

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **23 Ionawr 2017** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon a defnyddir ei gyfeirnodau.

## 2. Cwynion

### 2.1 Achos 201600999

Dyddiad derbyn: 23/05/16

**Cwyn**

Cwyn bod cynghorydd tref wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu ar sawl achlysur ac wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd.

**Penderfyniad**

Yn dilyn ymchwiliad penderfynodd yr Ombwdsmon fod ymddygiad y cynghorydd yn groes o bosib i'r Cod, ond nad oedd budd i'r cyhoedd i gyfeirio'r cynghorydd at y Pwyllgor Safonau na Phanel Dyfarnu Cymru, o ystyried ei fod, erbyn hynny, wedi ymddiswyddo o'r Cyngor.

### 2.2 Achos 201603417

Dyddiad derbyn: 12/09/16

**Cwyn**

Cwyn bod cynghorydd sir wedi methu datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn eitem oedd ger bron pwyllgor am benderfyniad.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Achwynydd heb gyflwyno tystiolaethddigonol i gefnogi ei gŵyn.

**2.3 Achos 11870/201603780**

Dyddiad derbyn: **26/9/16**

**Cwyn**

Bod aelod cyngor sir wedi ymddwyn yn amhriodol wrth gefnogi cais cynllunio yn ei etholaeth mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Cynllunio.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Nid oedd yr aelod yn aelod o’r pwyllgor ac roedd wedi datgan buddiant ac nid oedd hwnnw yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Roedd ganddo’r hawl i siarad a mynegi ei farn fel aelod lleol.

**2.4 Achos 11870/201603781**

Dyddiad derbyn: **26/9/16**

**Cwyn**

Nad oedd aelod cyngor sir o’r Pwyllgor Cynllunio wed i ymddwyn yn briodol a diduedd wrth benderfynu ar gais cynllunio.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Nid oedd yr achwynydd wedi darparu unrhyw dystiolaethi gefnogi ei gŵyn.

**3. Argymhelliad**

Gofynnir i’r Pwyllgor nodi’r wybodaeth